Canllawiau Aelodaeth Canolfan Ffilm Cymru

Rhagor o Bobl, Rhagor o Leoedd, Rhagor o Ffilmiau



@FilmHubWales

Chapter, Heol y Farchnad, Caerdydd, CF5 1QE
www.canolfanffilmcymru.org

Cynnwys

Cyflwyniad | Y Rhwydwaith Cynulleidfa Ffilm 01

Ein Blaenoriaethau | Aelodaeth 02

Sut i Ymuno 03

Manylion Cyswllt 04

Delweddau (clawr blaen): Penarth Pier Pavilion, Magic Lantern Tywyn, The Riverfront, Pontio, Chapter, Gwyn Hall
Delweddau (tudalen 4): Contact a Family Cymru © Noel Dacey, Cardiff Animation Festival © Mission Photographic, Iris on the Move / Iris Prize © Harrison Williams, Gentle/Radical, Joanna Quinn / Anim18 © Helen Griffiths, Gwaed ar y Sêr (1975) / S4C

Cyflwyniad

Mae Canolfan Ffilm Cymru (CFfC) yn dathlu sinema. Rydym yn cefnogi cyrff sy'n dangos ffilmiau – o wyliau ffilmiau i gymdeithasau a chanolfannau celfyddydau cymysg. Wrth gyd-weithio gyda dros 315 o arddangoswyr ein bwriad ydy cynnig y ffilmiau Prydeinig a rhyngwladol gorau i bob cynulleidfa ar draws Cymru a'r DU.

Rydym yn rhan o rwydwaith wyth canolfan yn y DU a gyllidir gan y Sefydliad Ffilm Prydeinig (BFI) fel rhan o Rwydwaith Cynulleidfa Ffilm (FAN), mae Chapter wedi'i benodi fel y Corff Arwain Canolfan Ffilm (FHLO) yng Nghymru.

Gwylio yw'r nôd felly os ydych yn dangos ffilmiau i gynulleidfaoedd gallwch elwa ar ein gwaith ymchwil, cyrsiau hyfforddi, bwrseriaethau, cronfeydd, cyngor a mwy. Ar ôl ymaelodi gallwch hyd yn oed wneud cais am gefnogaeth i ddatblygu eich cynulleidfa ffilm.
Ers sefydlu Canolfan Ffilm Cymru yn 2013 rydym wedi cyllido dros 225 o brosiectau sinema, gan gyrraedd 465,000 o aelodau cynulleidfa. Rydym hefyd yn falch o arwain strategaeth Sinema gynhwysol y DU ar ran BFI FAN.

Am wybodaeth ynghylch rhywfaint o'n gwaith hyd yn hyn, edrychwch ar uchafbwyntiau CFfC.

Y Rhwydwaith Cynulleidfa Ffilm

Sefydlwyd y Rhwydwaith Cynulleidfa Ffilm (FAN) yn 2012, gan ddefnyddio cyllid gan y Loteri Cenedlaethol i gefnogi ymagwedd gryfach a mwy cysylltiedig tuag at gynulleidfaoedd cynyddol ar gyfer ffilmiau Prydeinig a rhyngwladol ar y sgrin fawr.

Mae FAN yn cynnwys wyth Corff Arweiniol Canolfan Ffilm (FHLOs) rhanbarthol a chenedlaethol sydd yn darparu cyrhaeddiad daearyddol cynhwysfawr ar draws y DU gyda'r nod o gynyddu lled a dyfnder y ffilmiau sydd ar gael i gynulleidfaoedd

Mae FAN yn ganolog i ymrwymiad BFI i BFI2022, ei gynllun 5 mlynedd cyfredol, i roi cyfle i bawb, ym mhobman yn y DU i fwynhau a dysgu oddi wrth yr amrediad cyfoethocaf a mwyaf amrywiuol o wneud ffilmiau Prydeinig a rhyngwladol, yn y gorffennol, presennol a'r dyfodol.

Ein Blaenoriaethau

Mae blaenoriaethau FAN o dan BFI2022 fel â ganlyn:

- **Cynhwysiant:** Rhaglenni blwyddyn gyfan o ddangosiadau hygyrch sydd yn cynyddu amrediad ac amrywiaeth cynulleidfaoedd sydd yn ymgysylltu gyda ffilmiau.
- **Cynulleidfaoedd ifanc:** Cynulleidfaoedd ifanc 16 -30 oed: Gwella mynediad i ffilmiau, gyda gwerth ychwanegol drwy gydol y flwyddyn.
- **Ymgysylltu gyda chynulleidfoaedd:** Denu a chynnal cynulleidfaoedd ar gyfer sinema Prydeinig annibynnol (yn cynnwys Cymreig) a rhyngwladol, gan gynnig profiad diwylliannol dwfn.
- **Treftadaeth:** Dathlu ein hunaniaeth cenedlaethol, iaith a diwylliant drwy ffilm.
- **Sgiliau:** Hybu gweithlu medrus ac amrywiol ar draws aelodaeth Rhwydwaith Cynulleidfa Ffilm.

Er mwyn ymuno, rhaid i aelodau rannu gweledigaeth FAN a'r blaenoriaethau strategol a nodir yn BFI2022 a blaenoriaethau Canolfan Ffilm Cymru (yma).

Aelodaeth

Mae aelodaeth Canolfan Ffilm Cymru AM DDIM i gyrff cymwys ac mae'n cynnig amrediad o fanteision yn cynnwys:

- **Cyfleoedd cyllido** – cynlluniau i ddatblygu cynulleidfaoedd a bwrseriaethau ar gyfer hyfforddiant a datblygu yn unol ag amcanion FAN,
- **Cyfleoedd datblygu** – mynediad i gyrsiau a digwyddiadau hyfforddiant a datblygiad proffesiynol, mentora a chefnogaeth cymheiriaid i gymheiriaid,
- **Cyfleoedd rhwydweithio** – digwyddiadau, cynadleddau a chyfarfodydd a gynhelir gan y Ganolfan a'i bartneriaid ac ar draws FAN,
- **Cyfleoedd i gydweithredu** – cyfranogi mewn rhaglennu ar y cyd a phrosiectau datblygu cynulledifa a mentrau rhanbarthol a chenedlaethol gyda chyrhaeddiad a phroffil,
- **Cyngor ac arweiniad** – cefnogaeth hygyrch gyda nifer o bynciau gan gynnwys rhaglennu, gweithgaredd datblygu cynulleidfa a dangos ffilmiau gyda chysylltiadau Cymreig.
- **Mewnwelediad o gynulleidfaoedd** – mynediad i ymchwil diweddaraf a gwybdaeth marchnad ar gynulleidfaoedd a thueddiadau arddangos ffilmiau,
- **Cefnogaeth marchnata** – hyrwyddo drwy wefannau'r Ganolfan a FAN, rhestrau postio a sianeli cyfryngau cymdeithasol,
- **Eiriolaeth** – y cyfle i fod yn rhan o lais cryfach ar y cyd ar gyfer arddangosfeydd a chynulleidfaoedd ffilm.

Sut i Ymuno

Rydym yn croesawu ceisiadau aelodaeth gan unrhyw gorff sydd yn:

- Dangos ffilmiau i gynulleidfaoedd cyhoeddus neu i'w aelodaeth (neu sydd â chynlluniau i wneud hynny o fewn y cyfnod o 12 mis ers ymuno),

  ac/neu

- Sydd â diddordeb mewn ehangu'r amrediad o ffilmiau sydd ar gael i gynulleidfaoedd a chyfoethogi gwerth diwylliannol y gweithgaredd dangos ffilmiau yn y gymuned.

Mae cyrff cymwys yn cynnwys (ond nid yn gyfyngedig i):

- Sinemâu (annibynol a chylchoedd lleol/cenedlaethol),
- Lleoliadau celfyddydu cymysg,
- Cymdeithasau ffilm yn cael eu rhedeg gan wirfoddolwyr a sinemâu cymunedol,
- Sinemâu teithiol a rhwydweithiau sgrin cymunedol,
- Gwyliau ffilm,
- Archifau sgrin,
- Digwyddiadau ffilm pop-yp rheolaidd,
- Sefydliadau academaidd,
- Amgueddfeydd ac orielau,
- Adrannau ac asiantaethau awdurdodau lleol,
- Asiantaethau datblygu lleol a rhanbarthol,
- Grwpiau cymunedol a darparwyr hamdden.

I ddod yn aelod, llanwch y ffurflen gais, ynghyd â'r datganiad wedi'I lofnodi a'r dogfennau cefnogi (yma).

Nodwch mai:

- Rhaid i gyrff fod â chyfansoddiad ffurfiol (e.e. fel cwmni buddiant cymunedol neu yn gwmni atebolrwydd cyfyngedig cofrestredig yn Nhŷ'r Cwmnïau);
- Awdurdod Lleol neu gorff statudol;
- Grŵp gwirfoddol gyda chyfansoddiad ysgrifenedig a chyfrif banc.

Cefnogaeth:

- Dim ond i aelodau y mae'r rhan fwyaf o'r gefnogaeth ariannol gan y Ganolfan ar gael.
- Efallai na fyddwch yn gymwys yn awtomatig ar gyfer cynlluniau neilltuol ac fe ddylech wirio'r canllawiau ar gyfer y manylion llawn.
- Dydy unigolion preifat ddim yn gymwys ar gyfer aelodaeth FAN ond fe'u hannogir i ymuno gyda newyddlen Canolfan Ffilm Cymru a chadw mewn cysylltiad gyda datblygiadau o amgylch Cymru a'r DU.

Manylion Cyswllt

- **Hana Lewis, Rheolwraig Strategol y Ganolfan**
  hana@filmhubwales.org
  02920 353740
- **Lisa Nesbitt, Swyddog Datblygu**
  lisa@filmhubwales.org
  02920 311067
- **Megan David, Swyddog Marchnata**
  megan@filmhubwales.org
  02920 311057
- **Toki Allison, Swyddog Mynediad FAN**
  toki@filmhubwales.org
- **Radha Patel, Swyddog Gwnaethpwyd yng Nghymru**
  radha@filmhubwales.org

"Mae Sinema'n perthyn i bawb."

Emyr Williams, Pontio , Bangor